Y Pwyllgor Datblygu Economaidd Cyf: EDC 05-00(p.9)

Dyddiad: 15 Mawrth 2000

Lleoliad:

Teitl: Cyllideb Awdurdod Datblygu Cymru mewn perthynas â chefnogaeth ar gyfer Masnach Ryngwladol

***Cyllideb Awdurdod Datblygu Cymru ar gyfer cefnogi Masnach Ryngwladol***

***Diben***

1. Nodi sut y bydd cyllideb masnach dramor Awdurdod Datblygu Cymru yn cael ei thrin yn dilyn y penderfyniad y byddai ei weithgareddau yn y maes hwnnw yn cael eu trosglwyddo i’r Cynulliad Cenedlaethol. Mae’r papur hwn er gwybodaeth yn unig.

***Amseru***

2. Bydd y trosglwyddiad yn digwydd cyn gynted ag y bo modd yn y flwyddyn ariannol newydd (yn ddelfrydol 1 Ebrill ).

***Cefndir***

3. Cyhoeddwyd y penderfyniad i ffurfio ymgyrch masnach dramor sengl, o dan reolaeth y Cynulliad, yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 20 Ionawr. Yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 9 Chwefror cytunwyd y byddai papur yn cael ei baratoi ar sut y byddai’r gyllideb Masnach Ryngwladol yn cael ei thrin. Nid oedd y gyllideb a gadarnhawyd gan y Cynulliad (y Pwyllgor Datblygu Economaidd a’r Cyfarfod Llawn) ar 8 Chwefror yn cymryd i ystyriaeth sefydlu ymgyrch masnach dramor sengl newydd o dan reolaeth y Cynulliad. Pan fydd ffigurau terfynol y gyllideb wedi eu cytuno, bydd y diwygiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i’r MEG Datblygu Economaidd.

***Y Cynnydd hyd yma***

4. Sefydlwyd gweithgor yn cynnwys swyddogion o’r Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru i

ystyried holl agweddau'r trosglwyddiad. Mae'r grp yn cwrdd yn wythnosol.

***Goblygiadau Ariannol***

5. Un o dasgau'r gweithgor yw nodi'r adnoddau y bydd eu hangen ar yr ymgyrch masnach dramor sengl newydd yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r trafodaethau ar y materion cyllidebol hyn ar droed, ond pan fyddant wedi dod i ben, bydd y Cynulliad yn trosglwyddo lefel briodol o adnoddau o'r Awdurdod i mewn i gyllideb masnach dramor y Cynulliad. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad. Ymgynghorwyd â'r Is-adran Cynllunio Cyllid ynghylch y papur hwn ac mae'r adran yn fodlon ar yr agweddau ariannol.

***Y Camau nesaf***

6. Bydd y penderfyniad ar y swm i'w drosglwyddo yn cael ei ystyried yng ngoleuni'r argymhellion a wnaethpwyd gan yr Awdurdod yn ei Gynllun Corfforaethol; cynllun busnes yr Awdurdod (cyfeirnod i'w nodi); a'r trafodaethau yn y gweithgor ar anghenion adnoddau'r Ymgyrch newydd o 1 Ebrill ymlaen. Bydd yr adnoddau a nodwyd ar gyfer rhaglenni masnach ryngwladol arfaethedig y WDA yn cael eu hychwanegu at rai Uned Masnach Dramor y Cynulliad, sy'n cael eu darparu o dan gyllideb y Gwasanaethau Cefnogaeth Ddiwydiannol Amrywiol (mae'r Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos am beth amser er mwyn sicrhau bod eu rhaglenni yn cyd-fynd). Gellir ategu'r adnoddau hyn ymhellach gan ddibynnu ar y penderfyniadau a wneir o dan Ffordd i Ffyniant (EDC 04-00/p12). Rhagwelir y bydd gan yr ymgyrch masnach dramor sengl newydd linell gyllidebol ar wahân yn y flwyddyn ariannol nesaf.

***Cydymffurfio***

7. Mae gweithgareddau Masnach Ryngwladol y Cynulliad yn cael eu cyflawni o dan berau Adran 40 ac 85 o Ddeddf Llywodraeth Cymru ar y cyd ag Adran 7(2) o Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982. Mae'r perau priodol wedi eu dirprwyo i'r Prif Ysgrifennydd. Mae'r perau priodol hefyd wedi eu dirprwyo i swyddogion. Nid oes unrhyw faterion priodoldeb neu reoleidd-dra.

***Pwynt Cyswllt***

8. Trevor Samuel, Cyfarwyddwr yr Uned Masnach Dramor.